Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Joe Welch i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn:

(i) cydnabod ymdrechion y cyngor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo ynni adnewyddadwy;

(ii) cydnabod hefyd:

- bod y costau rhedeg a sefydlu ariannol sylweddol sydd ynghlwm â gwerthu trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol i gwsmeriaid lleol yn golygu ei fod yn amhosibl i gynhyrchwyr trydan adnewyddadwy lleol wneud hynny,
- y byddai gwneud y costau ariannol hyn yn gymesur â graddfa gweithrediad y cyflenwr trydan adnewyddadwy yn galluogi ac yn annog busnesau lleol newydd, neu gynghorau, i ddarparu trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol yn uniongyrchol i gwsmeriaid lleol, ac
- y gellir defnyddio'r refeniw a dderbynnir gan ddarparwyr trydan adnewyddadwy lleol newydd i wella'r economi, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn ogystal â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr lleol;

(iii) yn unol â hyn, penderfynu cefnogi'r Ddeddf Drydan Lleol, a gefnogir gan 187 o Aelodau Seneddol, a fyddai, os caiff ei wneud yn gyfraith, yn sefydlu Hawl i Gyflenwad Lleol a fyddai'n hyrwyddo cwmnïau a chydweithrediadau cyflenwi trydan adnewyddadwy lleol drwy wneud y costau rhedeg a sefydlu sydd ynghlwm â gwerthu trydan adnewyddadwy i gwsmeriaid lleol yn gymesur â maint gweithrediad y cyflenwad; a

(iv) phenderfynu hefyd i:

- roi gwybod i'r cyfryngau lleol am y penderfyniad hwn,
- ysgrifennu at Aelodau Seneddol lleol yn gofyn iddynt gefnogi'r Ddeddf, ac
- ysgrifennu at drefnwyr yr ymgyrch am y Ddeddf, Power for People,(8 Delancey Passage, Camden, London NW1 7NN neu info@powerforpeole.org.uk) yn mynegi ei gefnogaeth.